❖ Dyma yw'r Nadolig

A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd…
(Ioan 1:14) (*BWM*)

Wrthi'n paratoi defnydd ar gyfer Gŵyl y Geni yr oeddwn, ac er mwyn rhoi math o gychwyn ar bethau, ysgrifennais frawddeg nad oedd, yn wir, ond gosodiad digon ffwr-bwt: 'Dyma yw'r Nadolig.'

Wrth syllu'n eithaf diamcan ar y geiriau, yn y munud wele'r llythrennau – pedair ar ddeg ohonyn nhw – yn dechrau ymwáu trwy'i gilydd ac ymgymysgu'n ddyrys. Teimlwn awgrym yn magu yn fy meddwl y gallai gair arall fod yn ymguddio yng nghorff y frawddeg oedd o'm blaen. Ac eto, bernais fod hynny'n ormod i'w ddisgwyl, a bod cyd-ddigwyddiad o'r fath yn gwbl amhosibl.

Dechreuais osod y gair 'amhosibl' hwnnw wrth ei gilydd gan groesi allan bob llythyren a fenthyciwn o'r frawddeg wreiddiol. Yn wir, yn wir, roedd y gosodiad newydd fel petai am ddal ei dir… ond tybed a fyddai digon o lythrennau'n sbâr i'w gyfannu'n grwn?

Erbyn y diwedd, roeddwn yn dal fy ngwynt rhag i'r cwbl chwalu mewn siom. Ond fe ddaeth y gair yn berffaith gryno i'w le, ar wahân i adael dwy lythyren ddiangen ar ôl. O bopeth annisgwyl, rhoes y ddwy hynny y fannod 'yr' imi fel urddas terfynol i'r Gair. (Nid anaddas bellach yw rhoi priflythyren iddo, fel y 'Gair a wnaethpwyd yn gnawd' yn Ioan 1:14.) A hon yw'r wyrth a welodd fy llygaid y diwrnod hwnnw:

DYMA YW'R NADOLIG
YR YMGNAWDOLIAD

Robin Williams

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com